# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 26ain Ebrill 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones, Griff Morris, Gwilym Owen a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
**3.1** Nodwyd fod y Cyng. Einir Williams wedi gofyn am ddiweddariad ar Cae Chwarae Pantdreiniog. Adroddwyd y Clerc ei bod hi a'r cyfreithwyr wedi derbyn y brydles, ond nodwyd y Clerc ei bod ddim yn fodlon gyda'r amlinellad coch ar y cynllun safle a dderbyniwyd. Ar ôl derbyn y cynllun cywir, nodwyd bydd y Clerc yn arwyddo'r brydles, ac yn ei galluogi i archebu'r offer.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Angen drych ar Ffordd Gerlan – y Clerc i gysylltu â Cyngor Gwynedd.
**5.2** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – y Clerc wedi cysylltu â Cyngor Gwynedd. Adroddwyd y Cyng. Ann Williams fod angen torri dwy ochr y ffordd – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**5.3** Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll - Cyng. Rheinallt Puw.  Ar y gweill.

**5.4** CCTV Stryd Fawr – Nodwyd fod y Clerc wedi rhoid yr archeb i mewn, ond fod angen ymgynghori gyda'r trigolion fydd yn byw wrth ochr y camerau. Y Clerc i danfon llythyr i'r trigolion cyn gynted a bo modd.
**5.5** Arwyddion stryd – ar y gweill – y Clerc.
**5.6** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.7** Cae chwarae Rachub – Contractwr am anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.
**5.8** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – ar y gweill. Hefyd, nodwyd fod rhwystr yn rhydd yn ngwaelod Stryd y Ffynnon, hwn yn ofnadwy o beryg ac angen sylw ar frys – Cyng. Einir Williams i ddilyn i fyny.
**5.9** Ceblau uwchben yr A5 – dal un heb i'w wneud – y Clerc i holi eto.
**5.10** Llain o dir Stryd y Ffynnon, Gerlan – Adra i lanhau cyn gynted a phosib yn y flwyddyn newydd. Y Clerc wedi holi am ddyddiad cychwyn y glanhau, ond ddim ymateb hyd yn hyn.
**5.11** Adroddwyd fod y Cyng. Paul Rowlinson bod yn llwyddiannus yn gael drych newydd ar Stryd Britannia, Rachub, nodwyd hefyd ei fod wedi gofyn am un ar Lon Groes ac ar waelod Ty'n Ffridd – dim ymateb hyd yn hyn.

**6. Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod Llyn ac Eisteddfod 2023**
Cynhaliwyd y Pwyllgor Codi Arian ar nos Fercher, 13fed o Ebrill am 7yh. Nodwyd fod gan Cyngor Cymuned Bethesda targed o £3,000, Llandygai hefo targed o £2000 a Llanllechid hefo £1000. Nodwyd y Clerc ei fod wedi danfon gwahoddiad i'r ddau Gyngor arall i ymuno â'r pwyllgor, a cadarnhawyd fod Cyngor Llanllechid wedi dewis cynrychiolydd ar ei rhan, a adroddwyd fod Cyngor Llandygai yn gobeithio dewis cynrychiolydd yn ei cyfarfod nesaf ym mis Mai. Adroddwyd fod y cyfarfod nesaf yn gael ei gynnal ar yr 8fed o Fehefin, gyda Bore Coffi yn gael ei gynnal ar y 18fed o Fehefin, trefniadau i'w gadarnhau.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Nodwyd yr ohebiaeth.

**8. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Pawb wedi derbyn copi o cofnodion y cyfarfod a'r adroddiad cyllid. Cafwyd crynodeb gan y Cyng. Neville Hughes. Nodwyd fod rhesymau dilys dros y tanwariant, a fod bwriad i wario'r arian yn y flwyddyn ariannol yma, cynlluniau wedi gael ei dal yn ôl am wahanol resymau.
Penderfynwyd y bydd y Clerc yn rhoid pwysau ar Gyngor Gwynedd i ail ddechrau'r trafodaethau yn yr wythnosau nesaf ynglyn a'r Clwb Ieuenctid.
Rhodd Eisteddfod Llyn ac Eifionydd – Penderfynwyd bydd y Cyngor yn rhoi £400 o rhodd yn ychwanegol i'r £100 gwreddiol*. (Cyngr. Linda Brown, Ann Williams, Walter Williams a Neville Hughes yn datgan diddordeb)*

**9. Penodi Archwilydd Mewnol**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i benodi Uned Archwilio Mewnol, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd unwaith eto fel Archwilydd ar gyfer cyfrifon 2021-22.

**10. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad ar gael.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2022'
**11.1** Archwilio Cymru – rhaglen waith archwilydd Cymru – y Clerc i ddanfon sylwadau.
**11.2** Cyngor Gwynedd – Llinellau melyn Llwyn Bleddyn – y Clerc i holi os oes modd gael amodau parcio – dim parcio rhwng 8yb a 5yp yn lle y llinellau melyn.
**11.3** Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad Cyhoeddus – Holiadur Anghenion Tai ac Apêl am wybodaeth – Penderfynwyd y bydd y Clerc yn ymateb i nodi pwysigrwydd tai fforddiadwy i bobl ifanc lleol ac ar gyfer teulueoedd. Mae angen mwy o dai i'w prynu yn lle tai cymdeithasol, mae angen mwy o gydbwysedd. Unigolion i ymateb i'r ymgynghoriad os ydynt yn ymwybodol o dai gwag yn yr ardal.
**11.4** Ebost Cyng. Michael Williams – cwyn contractwyr yn parcio ym Maes Bleddyn a bws ddim yn stopio yn nheg Maes Bleddyn – Adroddwyd y Cyng. Paul Rowlinson oedd y contractwyr yn parcio ym Maes Bleddyn hyd nes oedd parcio addas ar gael ar safle Cae Rhosydd, ac ei fod yn gobeithio fydd ddim mwy o broblemau ynglyn a hyn. Hefyd, nodwyd y cynghorydd ei fod wedi bod mewn cyswllt ag Arriva, ac eglurwyd eu bod wedi cynnal asesiad risg. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi edrych i mewn i'r mater, ac nid oes bosib gael arhosfan dros dro oherwydd nid oes lleoliad addas. Cynigwyd bod y Cyngor yn gwneud cais am palmant newydd rhwng Maes Bleddyn a Fynwent Coetmor – y Clerc i holi.
**11.5** Mudiad Meithrin – Dim pwyllgor – Nodwyd fod dau aelod o staff wedi gael ei penodi fel unigolion cofrestredig tan diwedd y tymor, felly bydd y Cylch yn parhau hyd at mis Medi – penderfynwyd cyfwlyno'r ohebiaeth hwn eto yn y cyfarfod nesaf.
**11.6** YGC – Sherpa Shelters – eisiau gosod 3 lloches bws ym Methesda – Oherwydd fod y Cyngor wedi gosod cysgodfannau newydd y flwyddyn hon yn ddau o'r lleoliadau nodwyd, penderfynwyd derbyn un lloches newydd gerllaw troiad Pont Twr, gwrthod yr un wrth ochr yr hen Spar, ac awgyrmu symud lleoliad y trydydd lloches dros ffordd i'r Cae Pel droed ger troiad Glan Ffrydlas.
**11.7** Llywodraeth Cymru – Rheoliadau cyd-bwyllgorau corfforedig (Cyffredinol) – Nodwyd a derbyniwyd yr ohebiaeth, dim gwrthwynebiad.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C22/0256/13/LL**

| | |
|---|---|
| Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0163/13/DT**
4 Rhes Jams, Braichmelyn

Codi estyniad deulawr yn y cefn
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0141/13/RA**
Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Rhyddhau amod 10 (ymchwiliad i nodi natur a lefel halogiad y safle) o ganiatad cynllunio C20/0018/13/LL
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0201/13/RC**
Tir ger Y Iard Lo, Ffordd Carneddi

Diddymu cytundeb cyfreithiol Adran 106 sydd ynghlwm â chaniatad cynllunio C05A/0048/13/AM
**Penderfyniad:** Caniatawyd heb amodau.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C22/0327/16/AC**
Chwarel y Penrhyn

Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0336/16/MW**
Chwarel y Penrhyn

Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0384/13/DA**
31 Erw Las, Bethesda

Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd drwy ganiatad cynllunio C21/0408/13/DT
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | | |
|---|---|---|
| Hughes & Hughes | Cynnal a chadw Gorffwysfan | £1644.70 |
| Partneriaeth Ogwen | Gweithgaredd ieuenctid | £6000.00 |
| John Wyn Jones | Cyflog mis Ebrill | £318.40 |
| CThEM | TWE mis Ebrill | £79.40 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth blynyddol | £797.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £21561.34 |
| D E Williams | Gosod llochesi bws | £1800.00 |